Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Plas Dwbl

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/08/2018**

## Cyd-destun

Agorodd Coleg Plas Dwbl, sy'n rhan o Grŵp Ymddiriedolaeth Ruskin Mill, ym Medi 2011. Mae'n goleg arbenigol annibynnol preswyl a dydd ar gyfer pobl ifanc sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder gorfywiogrwydd a diffyg canolbwyntio ac anhwylderau ymlyniad.

Mae'r coleg wedi'i leoli ar fferm ar droed mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae'r tir yn cynnwys tir pori, coetir a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Mae 17 o ddysgwyr rhwng 18 a 25 oed yn mynychu'r coleg ar hyn o bryd. Mae llawer o ddysgwyr yn cael eu lleoli gan awdurdodau lleol Cymru, gydag ychydig yn cael eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr. Mae llawer o ddysgwyr yn byw yn nhai preswyl y coleg sydd wedi eu lleoli yn y pentrefi lleol.

Mae'r coleg yn seilio ei hathroniaeth addysgol ar egwyddorion sefydlu'r athronydd a'r gwyddonydd, Rudolph Steiner. Mae'n cynnig cwricwlwm addysg therapiwtig medrau ymarferol, sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau bywyd go iawn. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys ystod eang o sesiynau ymarferol yn y gweithdy, yr efail, y fferm a'r gegin.

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol, cydlynydd dysgu addysg a phennaeth gofal preswyl. Mae gan bennaeth y coleg gyfrifoldeb am addysg ar safleoedd Plas Dwbl a Ruskin Mill. Y dirprwy bennaeth sy'n rheoli gwaith y coleg o ddydd i ddydd.

Ym Mai 2015 y cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r coleg.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel iawn o ymgysylltiad a chyfranogiad mewn dysgu. Maent yn cydweithio'n dda i gynorthwyo ac annog ei gilydd mewn sesiynau. Maent yn foesgar ac yn barchus at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr â'r coleg.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau personol ac maent yn dod yn fwy annibynnol yn ystod eu hamser yn y coleg. Datblygant ymdeimlad o gyfrifoldeb ac maent yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau. Maent yn cymhwyso'r medrau a ddysgant yn y coleg yn llwyddiannus i leoliadau gwaith allanol yn y gymuned, er enghraifft mewn canolfan hamdden, gwerthwr bwyd organig a chanolfan geffylau.

Mae'r coleg yn darparu amgylchedd dysgu nodedig, sy'n hyrwyddo datblygu annibyniaeth a medrau ymarferol dysgwyr yn effeithiol iawn. Mae ardaloedd gweithio fel yr ardd, y gweithdy gwaith coed gwyrdd a'r efail yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth fuddiol o gynaliadwyedd a phrosesau naturiol. Er

enghraifft, maent yn tyfu, yn paratoi ac yn bwyta eu bwyd eu hunain, ac yn torri a pharatoi'r coed y maent yn ei ddefnyddio mewn sesiynau gwaith coed gwyrdd.

Mae tiwtoriaid a staff cymorth yn gweithio'n agos â'i gilydd i gefnogi anghenion unigol dysgwyr. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau heriol sy'n cyfateb yn dda i anghenion a doniau dysgwyr. Mae gan y coleg ymagwedd ystyriol iawn at reoli risg yn ofalus, sy'n cryfhau datblygiad hunanhyder ac ymdeimlad o gyflawniad dysgwyr yn effeithiol iawn.

Mae gweledigaeth glir gan uwch arweinwyr ar gyfer datblygiad y coleg, ac maent yn cyfleu hon yn dda i randdeiliaid. Mae pob aelod o staff yn hyrwyddo ethos o waith tîm a pharch at ei gilydd, ac mae hyn yn cefnogi lles dysgwyr yn y coleg yn llwyddiannus.

## Meysydd i'w datblygu

Er bod y coleg wedi gwneud cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion ers yr ymweliad monitro blaenorol, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae'r coleg yn hyrwyddo diogelwch a lles dysgwyr yn llwyddiannus iawn yn y coleg. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr mewn meysydd pwysig o'r cwricwlwm, fel addysg rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein, wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae hyn yn golygu nad yw dysgwyr wedi'u paratoi fel y dylent fod i reoli'u diogelwch personol yn y meysydd hyn pan fyddant yn gadael y coleg.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arsylwadau o sesiynau yn canolbwyntio'n addas ar y cynnydd a wna dysgwyr yn eu sesiynau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd

A2 Cynyddu cyfleoedd i'r holl staff arsylwi a rhannu arfer dda

A3 Mireinio prosesau hunanasesu i gynnwys arfarniadau penodol o gynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau a'u cyflawniad cyffredinol

A4 Rhoi rhaglen addas o addysg bersonol a chymdeithasol ar waith sy'n cynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd a diogelwch ar-lein

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod arsylwadau sesiynau yn canolbwyntio'n briodol ar y cynnydd a wna dysgwyr yn eu sesiynau, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r coleg wedi sefydlu cylch rheolaidd o arsylwadau sesiynau sy'n cynnwys arsylwadau o addysgu a dysgu gan uwch aelodau staff, arsylwadau cymheiriaid gan diwtoriaid, a theithiau dysgu. Mae arweinwyr wedi adolygu fformat arsylwadau sesiynau yn briodol ers yr ymweliad monitro blaenorol. Mae'r rhain yn darparu cyfle i arsylwyr ganolbwyntio ar y cynnydd a wna dysgwyr mewn sesiynau erbyn hyn, gan gynnwys datblygu'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, mae arsylwadau yn parhau i ganolbwyntio gormod ar ddisgrifiadau o'r gweithgaredd dysgu a'r hyn y mae'r tiwtor yn ei wneud. O ganlyniad, nid ydynt yn darparu arfarniad manwl o'r dysgu nac o ddatblygiad medrau dysgwyr.

**Argymhelliad 2: Cynyddu cyfleoedd i bob un o'r staff arsylwi a rhannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r coleg yn cynnal cyfarfodydd staff rheolaidd, sy'n galluogi staff i rannu syniadau a thrafod cynnydd a lles dysgwyr unigol. Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi cynnwys cyfle priodol yng nghylch arsylwadau addysgu a dysgu'r coleg i diwtoriaid arsylwi sesiynau ei gilydd a darparu adborth ar arfer ei gilydd.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw'r coleg wedi nodi'n ddigon clir sut mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn yr addysgu yn cysylltu â'i flaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn golygu nad yw'r arsylwadau hyn yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar arfer dda y mae'r coleg yn dymuno eu datblygu. O ganlyniad, effaith gyfyngedig a gânt ar wella ansawdd dysgu ac addysgu yn y coleg.

Caiff arweinwyr gyfleoedd gwerthfawr i ymweld â cholegau eraill o fewn y sefydliad fel rhan o raglen sicrhau ansawdd y sefydliad, ac mae staff unigol wedi arsylwi arfer mewn colegau eraill yn y sefydliad fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd yn gyfyngedig i diwtoriaid arsylwi arfer dda gydag ysgolion a cholegau eraill.

**Argymhelliad 3: Mireinio'r prosesau hunanasesu i gynnwys arfarniadau penodol o gynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau, a'u cyflawniad cyffredinol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae prosesau cadarn gan y coleg i olrhain cynnydd dysgwyr unigol yn erbyn ystod eang o fesurau. Mae'r rhain yn cynnwys y cynnydd a wnânt yn erbyn eu targedau tymor byr mewn meysydd fel parodrwydd at waith, cynhwysiant cymunedol a rheoli iechyd a lles, yn ogystal ag yn erbyn eu targedau ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Mae’r coleg yn casglu gwybodaeth bwysig am les dysgwyr unigol, er enghraifft mewn perthynas â’u presenoldeb a’u hymddygiad. Mae staff yn adolygu’r wybodaeth hon yn rheolaidd i osod targedau newydd ar gyfer dysgwyr ac i ddarparu gwybodaeth fanwl a gwerthfawr i rieni a gofalwyr dysgwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae arweinwyr wedi gwneud addasiadau i brosesau hunanarfarnu i gasglu gwybodaeth â mwy o ffocws ar gynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau. Er enghraifft, mae’r coleg wedi diwygio’i adroddiad hunanasesu i gynnwys mwy o ddata ar safonau disgyblion, ac mae wedi adolygu ei ymagwedd at arsylwadau gwersi i ganolbwyntio’n gliriach ar y cynnydd y mae dysgwyr yn ei wneud mewn sesiynau. Yn gyffredinol, fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio’r wybodaeth y maent yn ei chasglu am gynnydd dysgwyr a’u safonau cyflawniad i arfarnu’n ddigon clir beth yw effaith gwaith y coleg neu i gynllunio blaenoriaethau ar gyfer gwella yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o’r dystiolaeth hon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Plas Dwbl |
| **Rhif y coleg** | F0006004 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 27/06/2018 |
| **Perchennog** | Ymddiriedolaeth Ruskin Mill |
| **Staff** | 1 pennaeth cynorthwyol, 1 pennaeth gofal preswyl, 1 rheolwr tir, 4 tiwtor amser llawn, 6 thiwtor rhan-amser, 2 gynorthwyydd dysgu, 2 weithiwr cymorth, 1 therapydd lleferydd ac iaith |
| **Nifer y dysgwyr** | 17 |
| **Darpariaeth** | 6 dysgwr yn ystod y dydd, 9 dysgwr ar leoliadau preswyl 36 wythnos, 2 ddysgwr ar leoliadau preswyl 52 wythnos |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau ymlyniad |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 04/05/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 03/07/2017 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 13/03/2017 |